South West and Mid Wales Consortium
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru

Bwletin 1

Rhagfyr 2007

Gwaith Consortiwm - nodyn i'ch atgoffa o'i ddiben

Drwy gydweithio, ein gweledigaeth yw datblygu a chyflwyno gwell gwasanaethau i blant a phobl ifanc ac yn eu cefnogi i gyflawni safonau gwell.

Mae'r chwe awdurdod sy'n ffurfio Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru, sef Sir Gâr, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Sir Benfro ac Abertawe, wedi cydweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd er s rhai blynyddoedd ac yn parhau i geisio datblygu systemau a ffyrdd newydd o weithio sy'n:

- cadw at ethos pob awdurdod.
- parhau i ganolbwyntio ar anghenion y dysgwr ac
- yn darparu manteision ychwanegol ar gyfer pawb.

Mae gwaith consortiwm

- yn gwella safonau cyrhaeddiad a chyflawniad
- yn darparu cyd-gefnogaeth
- yn adeiladu ar waith llwyddiannus yr awdurdodau unigol ac yn ychwanegu gwerth ato ac
- yn sicrhau dwyieithrwydd
- wrth geisio sicrhau bod yr ymagwedd a ddatblygir yn gost-effeithiol ac yn cyflawni gwerth am arian.

Nid oes un ffordd o gydweithio sy'n addas i bob sefyllfa ac felly mae swamwac wedi mabwysiadu Continwwm o waith Consortiwm sy'n darparu'r hyblygrwydd mae ei angen i gynnwys amrywiaeth o sefyllfaoedd ac atebion.

Mae cryfder a llwyddiant gwaith Consortiwm o fewn awdurdodau lleol swamwac yn deillio o barodrwydd athrawon, penaethiaid a swyddogion proffesiynol i rannu profiadau ac arbenigedd a chyfrannu at waith datblygu er lles yr holl ddysgwyr ar draws y rhanbarth cyfan.

Ein taith hyd yn hyn

Yn ogystal â gwaith parhaus y Grwpiau Gweithredol, cyflawnodd swamwac amrywiaeth o waith ymchwil a datblygu rhwng Medi 2006 a Mai 2007 gan ddefnyddio arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Arweiniodd y prosiect 'Creu'r Cysylltiadau' hwn at nodi nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gwaith Consortiwm a'u cynnwys mewn Cynllun Gweithredu.

Cafodd adroddiad a deilliannau terfynol y prosiect eu croesawu a'u cymeradwyo gan Gyfarwyddwyr y Consortiwm a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u cyflwyno i LICC ym mis Mehefin 2007.

Roedd gwaith y Grwpiau Gweithredol yn rhan annatod o sicrhau deilliannau cadarnhaol y prosiect a rhaid diolch pawb dan sylw am eu hymrwymiad a'u cyfraniad. Roedd y gwaith yn rhan allweddol o gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus ac yn amserol ac o'r gwerth ychwanegol a gaiff ei gyflawni pan fydd y camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gweithredu'n cael eu cwblhau.

Ceir mwy o wybodaeth ynghylch deilliannau manwl prosiect Creu'r Cysylltiadau ar wefan y Consortiwm yn: www.swamwac.org/project report

Camau Nesaf

Cam 1 Cynllun Gwaith Strategol Dros Dro'r Consortiwm

Mae Cynllun Gwaith Strategol y Consortiwm ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2007 a mis Awst 2008 yn adeiladu ar y 'Cynllun Gweithredu' ac yn nodi'r llinynnau penodol canlynol i'w datblygu ymhellach:-

Llinyn 1: Datblygu'r Gweithlu
Llinyn 2: Cynghori, Cefnogi a Herio
Llinyn 3: Llywodraethu a Datblygiad Sefydliadol

Er mwyn rhoi Cynllun Gwaith Strategol y Consortiwm ar waith yn llawn, mae angen arian ychwanegol ac felly, cyflwynwyd cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am arian parhad o Gronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau - rydym yn aros am y canlyniad.

Yn y cyfamser, mae gweithrediadau wedi cael eu blaenoriaethu ac mae'r cynllun wedi cael ei wahanu'n ddwy ran wahanol ond sydd â chysylltiadau rhyngddynt.

- Mae Rhan 1 yn nodi'r meysydd a'r camau allweddol y gellir eu cymryd gyda chronfa adnoddau bresennol yr awdurdodau
- Mae Rhan 2 yn canolbwyntio ar y gwaith na ellir ei gyflwyno nes bod arian ychwanegol yn cael ei gytuno.

Er mwyn hwyluso cyfeirio, enwyd Rhan 1 Cynllun Gwaith Strategol y Consortiwm yn Gynllun Gwaith Strategol **Dros Dro** y Consortiwm. Felly, mae gennym cynllun strategol clir a phenodol bellach ar gyfer gwaith y consortiwm y cytunwyd arno gan Awdurdodau Lleol ac ysgolion, sy'n nodi allbynnau a deilliannau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.

Ceir tîm bach o swyddogion/hwyluswyr proffesiynol a staff cefnogi sy'n cydlynu ac yn hwyluso gwaith ar ran awdurdodau lleol swamwac, sydd wedi'i leoli yng Ngholeg y Drindod (gweler yr wybodaeth ar fanylion cyswllt isod).

Cam 2 Grwpiau Gweithredol y Consortiwm

Cytunwyd ar Grwpiau Gweithredol Diwygiedig y Consortiwm, wedi'u pennu gan y camau gweithredu yng Nghynllun Gwaith Strategol y Consortiwm a threfniadau a roddwyd ar waith ar gyfer hwyluso'r grwpiau hyn. Bydd Grwpiau Sefydlog a Grwpiau Tasg a Gorffen. Bydd cyfarfodydd grwpiau'n cael eu trefnu cyn gynted â phosib ac yn derbyn cyfarwyddiadau i roi camau gweithredu penodol o Gynllun Gwaith Strategol Dros Dro'r Consortiwm ar waith yn erbyn amserlen a bennwyd.

Bydd manylion ynghylch y grwpiau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys eu cylch gwaith, ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.swamwac.org/group yng nghrynodeb o'r cylch gwaith ac aelodaeth. Bydd hwyluswyr yn cysylltu ag unrhyw grwpiau nad oes ganddynt ddyddiad cwrdd penodedig ar hyn o bryd.

Bydd Grwpiau Gweithredol eraill y Consortiwm yn parhau i gwrdd, gan barhau â'u gwaith rhwydweithio a chydlynu gwerthfawr. Mae'r gwaith hwn yn bwysig a bydd hwyluswyr yn cynnal cysylltiadau â'r grwpiau hyn. Fodd bynnag, nes bod adnoddau pellach yn cael eu darparu, ni ellir dyrannu cefnogaeth benodol lle nad oes gan y Grŵp gam gweithredu penodol o fewn Cynllun Gwaith Strategol Dros Dro'r Consortiwm.

Cam 3 Trefnu a Llywodraethu

Fel rhan o roi Cynllun Strategol y Consortiwm ar waith, ni fydd y trefniadau trefnu, llywodraeth a chraffu ar waith Consortiwm yn cael eu datblygu ymhellach. Mae ysgolion yn chwarae rôl strategol hollbwysig wrth ddatblygu gwaith consortiwm a'r trefniadau llywodraethu a chraffu drwy Grŵp Ffocws y Penaethiaid (mwy o wybodaeth isod).

Cysylltiadau

Grŵp y Penaethiaid
Mae pob awdurdod wedi'i gynrychioli gan 5 pennaeth a enwebwyd drwy'r gweithdrefnau arferol o fewn eu hawdurdod

- 1 pennaeth uwchradd
- 3 pennaeth cynradd
- 1 pennaeth i gynrychioli safbwynt ysgolion arbennig
  naill ai bennaeth Ysgol Arbennig neu
  bennaeth ysgol prif ffrwd â darpariaeth arbenigol sylweddol

Mae'r grŵp yn gweithredu ar lefel strategol, ynghyd â'r Grŵp Strategol,

- gan ddiffinio cyfeiriad a chwmpas strategol gwaith y consortiwm
- darparu fforwm cynrychiolwyr ar gyfer trafodaeth ar weithgareddau'r Consortiwm o safbwynt ysgolion
- paratoi her a chefnogaeth adeiladol
- paratoi sianel gyfathrebu rhwng y Consortiwm ac ysgolion ym mhob awdurdod

Mae'r grŵp llawn yn cwrdd bob tymor o leiaf, gydag is-grwpiau'n cael eu hymgynnull yn ôl yr angen.

Rydym yn gweithio tuag at ddarparu manylion cyswllt y penaethiaid ar Grŵp y Penaethiaid drwy wefan swamwac. Yn y cyfamser, ffoniwch Swyddfa'r Consortiwm gydag unrhyw ymholiad.

Swyddfa'r Consortiwm
Ceir tîm bach o swyddogion/hwyluswyr proffesiynol a staff cefnogi sy'n cydlynu ac yn hwyluso gwaith ar ran awdurdodau swamwac, sydd wedi'i leoli yng Ngholeg y Drindod yn adeilad newydd y Llwyfan. Mae symud i'r adeilad newydd yn creu cyfle i grwpiau ddefnyddio ystafelloedd cyfarfod a mannau gwaith i ddatblygu gwaith y consortiwm.

Gallwch ffonio swamwac ar 01267 245633 neu e-bostio admin@swamwac.org

Hwyluswyr
Dyma fanylion cyswllt prif hwyluswyr pob Llinyn o Gynllun Gwaith Strategol Dros Dro'r Consortiwm fel a ganlyn:

Llinyn 1: Datblygu'r Gweithlu	Siân Lewis	admin@swamwac.org
Llinyn 2: Cynghori, Cefnogi a Herio	Lynne Walters	admin@swamwac.org
Llinyn 3: Llywodraethu a Datblygiad Sefydliadol	Eileen Bellamy	admin@swamwac.org
Cydlynydd Strategol	Pauline Lewis	admin@swamwac.org

Cadw mewn Cysylltiad

Byddwn yn anfon bwletinau'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch cynnydd gwaith a llwyddiannau'r consortiwm, a byddwn yn datblygu gwefan swamwac ymhellach.

Byddem yn croesawu sylwadau gennych ynghylch sut mae gwaith consortiwm wedi'ch helpu chi, neu awgrymiadau ynghylch sut gallai eich helpu yn y dyfodol, neu os oes gennych unrhyw arfer da yr hoffech ei rannu drwy'r wefan. E-bostiwch admin@swamwac.org.